



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Canllawiau ar gyfer cofrestru gollyngiadau elifion carthion bach

Perchennog y Ddogfen: Gwasanaethau Cenedlaethol/ Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio (KSP)

Hanes y Fersiwn:

Fersiwn y Ddogfen	Dyddiad cyhoeddi	Crynodeb o Newidiadau
1.0	Gorffennaf 2011	Creu'r ddogfen
2.0	Mai 2015	Ailfrandio i CNC
3.0	Medi 2016	Newidiadau i feini prawf sgrinio ac i adlewyrchu EPR
4.0	Ionawr 2017	Newidiadau i feini prawf sgrinio

Cyhoeddwyd gan:

Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP
0300 065 3000 (Llun-Gwe, 8am - 6pm)
enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
www.naturalresourceswales.gov.uk
© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon gyda chaniatâd Cyfoeth Naturiol Cymru ymlaen llaw

Cynnwys

Crynodeb gweithredol 2

Canllaw cyflym i gofrestru 2

1 Cyflwyniad 4

- 1.1 Beth yw diben y canllawiau? 4
- 1.2 Ar gyfer pwy mae'r canllawiau? 4
- 1.3 Cefndir 4
- 1.4 Sut i ddefnyddio'r canllawiau? 9
- 1.5 Darllen pellach 9

2 Cefndir technegol 11

- 2.1 Math o ollyngiad 11
- 2.2 Sut i gyfrifo'ch gollyngiad? 11
- 2.3 Gwybodaeth ychwanegol ar gyfer gollyngiadau newydd 12

3 Meini prawf ar gyfer cofrestru 14

- 3.1 Meini prawf ar gyfer gollyngiadau carthion bach 14
- 3.2 Meini prawf ychwanegol ar gyfer gollyngiadau i ddŵr wyneb 20
- 3.3 Meini prawf ychwanegol ar gyfer gollyngiadau i ddŵr daear 22

4 Ar ôl cofrestru 14

- 4.1 Gofynion gweithredu a chynnal a chadw 14
- 4.2 Defnyddio peirianwyr a gweithwyr gwasanaethau cymwys 14
- 4.3 Sicrhau bod y statws esempt yn cael ei gynnal 14
- 4.4 Trosglwyddo'r cofrestriad i feddiannydd newydd 15
- 4.5 Dadgofrestru 15
- 4.6 Datgomisiynu 15
- 4.7 Deddf Diogelu Data 1998 15

Cyfeiriadau 17

Geirfa 18

Rhestr byrfoddau 19

Atodiad A 20

Dehongliadau diwygiedig o garthffosiaeth ddomestig ac elifion masnach 20

Crynodeb gweithredol

Canllaw cyflym i gofrestru

Mae angen i chi gofrestru eich gollyngiadau carthffosiaeth gyda ni:

- Os ydynt yn 5 metr ciwbig y dydd neu lai ac yn gollwng i ddŵr wyneb. Mae hyn tua'r un faint o garthffosiaeth ag y byddai 33 o bobl mewn un eiddo yn ei gynhyrchu.
- Os ydynt yn 2 metr ciwbig y dydd neu lai ac yn gollwng i'r ddaear. Mae hyn tua'r un faint o garthffosiaeth ag y byddai 13 o bobl mewn un eiddo yn ei gynhyrchu.

Caiff gollyngiadau o systemau trin carthffosiaeth a ddechreuodd cyn 6 Ebrill 2010 eu dynodi fel **gollyngiadau cyfredol** ac mae'n rhaid iddynt fodloni'r safonau oedd mewn grym adeg eu gosod.

Caiff gollyngiadau o systemau trin carthffosiaeth a ddechreuodd ers 6 Ebrill 2010 eu dosbarthu fel **gollyngiadau newydd** ac mae'n rhaid iddynt fodloni Safonau Prydeinig penodol. Bydd eich gosodwr yn gallu eich helpu i gadarnhau hyn.

Yn achos **gollyngiadau newydd**, os yw'ch gollyngiad o fewn 30 metr i garthffos gyhoeddus dylech gysylltu â hwnnw. Os oes yna fwy nag un eiddo yna cyfrifir y pellter o fewn lle dylech gysylltu â'r garthffos gyhoeddus drwy luosi 30 metr â nifer yr eiddo.

Bydd gollyngiadau cyfredol a newydd yn cael eu gwneud naill ai:

- i ddŵr wyneb drwy uned trin carthion gryno (PTP)
- neu i'r ddaear drwy danc carthion/PTP a system ymdreiddio / cae draenio.

Dim ond gollyngiadau garthffosiaeth ddomestig sy'n deillio o weithgareddau domestig arferol a ganiateir (gweler Atodiad A os nad ydych yn siŵr). Cymerwch ofal ychwanegol bob amser gyda'r hyn sy'n mynd i lawr twll y plwg neu ei fflysio i lawr y toiled. Gweler canllawiau Dŵr Prydain am ragor o wybodaeth.

Ni allwn gofrestru gollyngiadau sy'n rhy agos at dderbynyddion sensitif ac efallai y bydd angen i chi wneud cais am drwydded amgylcheddol. Os oes yna ormod o risgiau amgylcheddol efallai na fyddwn yn gallu rhoi trwydded i chi. Cofrestrwch fel arfer ac fe wnawn ni wirio hyn i chi a rhoi gwybod i chi a oes rhaid i chi wneud rhywbeth arall.

Mae'r meini prawf ar gyfer **gollyngiadau i ddŵr wyneb** yn cynnwys y gofyniad i drin gydag uned trin carthion gryno (PTP) yn gyntaf.

Mae'n rhaid i **ollyngiadau i'r ddaear** gael eu gwneud drwy danc carthion a system ymdreiddio / cae draenio (suddfan) ac weithiau PTP.

Mae'n bwysig iawn bod perchnogion yn cadw tanciau carthion ac unedau trin carthion cryno mewn cyflwr da. Ni ddylai'r system achosi llygredd.

Canllawiau ar gyfer cofrestru gollyngiadau elifion carthion bach

Ar ôl i chi gofrestru mae'n rhaid i chi sicrhau:

- bod y systemau newydd wedi'u gosod yn briodol;
- bod y gwaith cynnal a chadw'n cael ei wneud gan rywun cymwys a dylech gael cynllun cynnal a chadw;
- mai dim ond unigolyn awdurdodedig sy'n gwneud gwaith clirio slwtsh carthion;
- nad oes dŵr to glân na dŵr wyneb yn mynd i'r system;
- nad oes cemegion na thoddyddion yn mynd i'r system (gweler Codau Ymarfer Dŵr Prydain);
- eich bod yn cadw unrhyw waith papur a derbynebaw a gewch gan beirianwyr gwasanaeth, cwmnïau gwacáu tanciau ac ati am o leiaf bum mlynedd.

Symud tŷ?

Pan fydd rhywun newydd yn symud i'ch eiddo ac felly'n etifeddu'ch cofrestrriad, ni fydd angen iddo ailgofrestru ond bydd angen i chi ddarparu'r manylion canlynol yn ysgrifenedig iddo neu eu gadael gyda'ch landlord:

- rhybudd bod rhaid i'r gollyngiadau barhau i fodloni'r meini prawf ar gyfer cofrestru;
- disgrifiad o'r system ac unrhyw lawlyfrau sydd gennych;
- cofnodion / derbynebaw am unrhyw wasanaeth a gwaith clirio slwtsh carthion.

Dim angen eich tanc neu'ch PTP mwyach?

Os byddwch yn cysylltu â charthffos gyhoeddus yn y dyfodol yr unig beth sy'n rhaid i chi ei wneud yw ffonio a rhoi gwybod i ni. Dylid datgomisiynu a selio unrhyw hen system.

Mae rhagor o fanylion yn y canllawiau hyn.

Neu ffoniwch 0300 065 3000 (Llun-Gwe, 8am - 6pm)

Sut i gofrestru

Ewch i'n gwefan i gael manylion sut i gofrestru:

<http://naturalresources.wales/apply-for-a-permit/water-discharges/?lang=cy>

1 Cyflwyniad

1.1 Beth yw diben y canllawiau?

Mae'r canllawiau'n egluro'r meini prawf ar gyfer cofrestru yn fanylach. Mae hefyd yn cynnwys gofynion dylunio, adeiladu, lleoli, gosod a chynnal a chadw. Ni ellir cofrestru gollyngiadau sy'n rhy agos at safleoedd amgylcheddol sensitif fel rhai esempt. Mae'r pellteroedd a ddefnyddiwn i ddiogelu safleoedd amgylcheddol sensitif i'w gweld yn y canllawiau hyn.

Mae'r canllawiau'n cyfeirio hefyd at Safonau Prydeinig a Chodau Ymarfer cydnabyddedig y diwydiant. Bydd y dogfennau hyn yn eich helpu i weithredu a chynnal a chadw eich system trin carthffosiaeth yn unol â'r canllawiau a'r rheoliadau.

Mae'r canllawiau hyn yn ategu Atodlen 3, Rhan 2 a 3 o Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 (EPR) ar gyfer cofrestru gweithgareddau gollwng dŵr a dŵr daear esempt, sy'n ymwneud â gollyngiadau bach o elifion carthion wedi'u trin.

1.2 Ar gyfer pwy mae'r canllawiau?

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer pobl yng Nghymru sydd angen cofrestru gollyngiadau elifion carthion o danc carthion neu uned trin carthion gryo (PTP).

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol hefyd i weithgynhyrchwyr, gosodwyr, peirianwyr cynnal a chadw ac eraill sy'n rhan o waith dylunio, adeiladu, lleoli, gosod a chynnal a chadw systemau trin carthion sy'n gwasanaethu cartrefi a chymunedau bach yng Nghymru. Bydd yn berthnasol hefyd i'r rhai sy'n gweithredu a rheoli tanciau carthion ac unedau trin carthion.

1.3 Cefndir

1.3.1 Beth yw cofrestru?

Cofrestru unwaith am ddim yw un o'r dulliau rheoleiddio symlaf sydd ar gael i ni. Dyma'r dull sy'n rhoi'r lleiaf o faich ar ymgeiswyr a ninnau fel rheoleiddwyr yn dilyn newidiadau a gyflwynwyd yn sgil gweithredu Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2020 ar 6 Ebrill 2010. Os ydych chi'n bodloni'r holl feini prawf a amlinellir yn y ddogfen hon ac yn cytuno i gynnal y meini prawf hyn gallwch gofrestru eich gollyngiadau fel rhai esempt o'r angen i gael trwydded amgylcheddol o dan y Rheoliadau.

Roedd y Rheoliadau newydd yn newid y rheolau ynglŷn â gollyngiadau o elifion carthion domestig o danciau carthion bach ac unedau trin carthion. O dan y Rheoliadau cyfeirir at y rhain fel gollyngiadau elifion carthion bach ac maent wedi'u cyfyngu yn ôl maint (gweler Adran 2.2).

Gall y rhan fwyaf o ollyngiadau carthion bach gael eu cofrestru fel rhai esempt o'r angen am drwydded amgylcheddol (caniatâd i ollwng o dan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 cyn hyn).

1.3.2 Pam mae angen cynllun cofrestru?

Mae angen rhyw ffordd o reoli gollyngiadau elifion carthion, ac yng Nghymru, Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol yw'r dull o wneud hyn.

Mae'r Llywodraeth wedi rhoi dyletswydd i ni ddiogelu a rheoli adnoddau dŵr ac mae gennym dystiolaeth gadarn fod tanciau carthion yn gallu achosi llygredd mewn rhai amgylchiadau. Er enghraifft, gall tanciau carthion ymyrryd â chyflenwadau dŵr yfed a niweidio ecoleg rhai afonydd, gwlyptiroedd ac ecosystemau daearol sy'n dibynnu ar ddŵr daear. Gall pathogenau, nitrad, amonia, plaladdwyr, cynhyrchion fferyllol a ffosffad achosi llygredd. Gall systemau gwaredu sydd wedi'u gosod yn anghywir, sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n wael neu sydd wedi'u lleoli'n wael achosi llygredd hefyd. Gall system trin carthion sydd wedi'i chynllunio, ei defnyddio a'i chynnal a'i chadw'n briodol fod yn effeithiol iawn o ran gwanhau llygryddion posibl. Rydym hefyd yn gorfod ystyried risg cronus llygredd o grwpiau o ollyngiadau, a all fod yn sylweddol.

I gyflawni ein rôl mae angen i ni wybod ble mae'r gollyngiadau'n digwydd er mwyn gallu nodi'r risg a chymryd camau gweithredu priodol. Dim ond cofrestru fydd angen i'r rhan fwyaf o ddeiliaid tai ei wneud os oes ganddynt system sy'n cael ei chynnal a'i chadw'n briodol. Nid yw'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol o reidrwydd i ddeiliaid tai osod systemau newydd neu fynd i gostau ariannol; dim ond cofrestru eu gollyngiadau a chytuno i rai meini prawf cyffredinol ar gyfer cynnal a chadw a defnyddio'n gywir.

1.3.3 Pwy ddylai gofrestru?

Meddiannydd tir lle mae yna weithgarwch gollwng elifion carthion bach yn digwydd (fel rheol, deiliad y tŷ neu'r meddiannydd¹, sy'n dymuno cofrestru'r gollyngiad fel achos esempt ddylai roi manylion y gollyngiad i ni).

Mewn rhai achosion, bydd y tanc carthion neu'r uned trin carthion a/neu'r pwynt gollwng wedi'i leoli ar dir sydd ar wahân i'r eiddo y daw'r carthion ohono. Yn yr achosion hyn, y meddiannydd yw'r unigolyn sy'n meddiannu'r eiddo y daw'r carthion ohono. Os yw'r hyn sy'n cael ei ollwng yn cynnwys carthion mwy nag un eiddo, dim ond unwaith sy'n rhaid cofrestru; gall unrhyw un o'r deiliaid tai gofrestru'r gollyngiad. Os yw'r system drin wedi'i lleoli ar eiddo un o'r deiliaid, y deiliad hwn fyddai'r person mwyaf addas i gofrestru.

1.3.4 Beth yw gollyngiadau elifion bach?

Nid yw rhai tai wedi'u cysylltu â charthffos gyhoeddus gan eu bod yn rhy bell i ffwrdd. Yn hytrach, efallai eu bod yn defnyddio tanc carthion neu uned trin carthion gryno i ymdrin â'u carthion domestig. Mae'r gollyngiadau o danc carthion yn mynd i'r ddaear drwy system ymdreiddio / cae draenio (a elwir yn suddfan weithiau). Mae gollyngiadau o uned trin carthion gryno yn mynd i'r ddaear neu i ddŵr wyneb. Uchafswm maint system garthion y gellir ei chofrestru:

- Mae'n rhaid i uchafswm gollyngiad elifion carthion o danc carthion i'r ddaear drwy system ymdreiddio / cae draenio fod yn 2 metr ciwbig y dydd neu lai;

¹ Cyfrifoldeb y meddiannydd yw cofrestru, nid y landlord.

- Mae'n rhaid i uchafswm gollyngiad elifion carthion o uned trin carthion gwyno i ddŵr croyw mewndirol, dyfroedd arfordirol neu ddyfroedd daearol perthnasol fod yn 5 metr ciwbig y dydd neu lai.

1.3.5 Gollyngiadau newydd a chyfredol

Bydd angen i chi wybod a yw'r gollyngiad wedi'i ddsbarthu fel un cyfredol neu newydd.

1.3.5.1 Beth yw gollyngiad cyfredol?

Os oeddech chi'n gollwng yr elifion carthion cyn 6 Ebrill 2010 mae'n **ollyngiad cyfredol**. Os ydych chi wedi uwchraddio eich system drin neu wedi cael system newydd² (neu'n bwriadu gwneud hynny) ond yn dal i ollwng i'r un lle, caiff hyn ei ystyried fel gollyngiad cyfredol hefyd.

Mae cofrestru gollyngiadau cyfredol yn amodol ar weithredu a chynnal a chadw'r gollyngiadau yn briodol er mwyn osgoi llygredd.

1.3.5.2 Beth yw gollyngiad newydd?

Mae pob gollyngiad a wnaed ar neu ar ôl 6 Ebrill 2010 yn **ollyngiad newydd**. Os oes gennych chi system gyfredol ond yn bwriadu newid neu wedi newid y pwynt gollwng ers 6 Ebrill 2010 dylid trin hyn fel gollyngiad newydd. Mae'n rhaid i bob gollyngiad newydd fodloni'r meini prawf gosod a gweithredu llawn sydd yn y canllawiau technegol hyn.

1.3.8 Beth os oes gen i drwydded yn barod?

Os ydych chi wedi cael 'caniatâd i ollwng' eisoes o dan Ddeddf Adnoddau Dŵr (1991) neu 'drwydded amgylcheddol' i ollwng, yna ni fydd angen i chi wneud unrhyw beth gan y byddant wedi newid yn awtomatig i gofrestriadau. Rydym wedi gosod manylion y gollyngiadau hyn ar y gofrestr i chi.

Yr unig beth sy'n rhaid i chi ei wneud yw parhau i sicrhau bod eich system yn cael ei gweithredu a'i rheoli'n briodol yn unol â'r meini prawf sydd yn y ddogfen hon. Ond os yw eich pwynt gollwng yn newid bydd angen i chi ailgofrestru, gan y bydd hwn yn cael ei ystyried yn ollyngiad newydd.

Os nad ydych yn siŵr a oes angen i chi gofrestru ai peidio, ffoniwch ni ar 0300 065 3000 (Llun - Gwe 8am - 6pm).

² Os ydych yn gosod tanc carthion neu uned trin carthion gwahanol, dylech sicrhau ei fod yn bodloni'r Safon Brydeinig gyfredol ar gyfer dylunio, adeiladu a gosod fel y nodir yn y canllawiau hyn.

1.3.9 Erbyn pryd mae angen cofrestru?


Mae Tabl 1 yn dangos yr amserlenni ar gyfer cofrestru gollyngiadau newydd a chyfredol i ddŵr wyneb a'r ddaear.

Tabl 1 Amserlenni ar gyfer cofrestru gollyngiadau carthion bach fel gollyngiadau esempt	Dyddiad cofrestru
Gollwng 5 metr ciwbig y dydd neu lai i ddŵr wyneb o uned trin carthion gryno	O 6 Ebrill 2010
Gollwng 2 fetr ciwbig y dydd neu lai i'r ddaear o danc carthion neu uned trin carthion neu uned trin carthion gryno	Erbyn 1 Ionawr 2012

1.3.10 Alla i gofrestru?

Mae'r siart llif (Ffigur A) yn dangos a allwch chi gofrestru eich gollyngiad ai peidio. Mae'r siart llif hon yn rhoi'r meini prawf sylfaenol ar gyfer cofrestru. Os ydych chi'n bodloni'r meini prawf hyn dylech barhau i ddarllen y ddogfen hon i weld a allwch chi fodloni'r holl feini prawf cofrestru.

Ni fydd y rhai sy'n gwneud gollyngiadau nad ydynt yn bodloni'r meini prawf yn y canllawiau, yn cynnwys yr isafswm pellter o safleoedd sensitif (rydym yn gwirio hyn i chi ar ôl i chi gofrestru) yn gallu cofrestru a bydd gofyn iddynt wneud cais am drwydded amgylcheddol.



Ffigur A. Cymhwysedd ar gyfer gofrestru

DIAGRAM TRANSLATION

Is the effluent – Ai dim ond elifion domestig ydynt (ddim yn cynnwys elifion masnach)?

No – Nage

Yes – Ie

Is the discharge – A yw'r elifion yn cael eu gollwng i ddŵr wyneb neu i'r ddaear?

Surface – Dŵr wyneb

Ground – I'r ddaear

Is the discharge – A yw'r gollyngiad yn 5 metr ciwbig y dydd neu lai?

No – Nac ydy

Yes - Ydy

Is the discharge – A yw'r gollyngiad yn digwydd mewn SPZ1 neu o fewn 50 metr i ffynnon neu dwll turio a ddefnyddir i gyflenwi dŵr?

Yes – Ydy

No – Nac ydy

Was the discharge – A oedd yr elifion yn cael eu gollwng cyn 6 Ebrill 2010?

Yes – Oeddynt

No – Nac oeddynt

Is the discharge 2 – A yw'r gollyngiad yn 2 fetr ciwbig y dydd neu lai?

No – Nac ydy

Yes – Ydy

Can you – allwch chi gysylltu'n rhesymol â charthffos gyhoeddus fudr?

No – Na allwn

You may be able – Efallai y byddwch yn gallu cofrestru. Gweler meini prawf yn Adran 3

Yes - Gallwn

Do not – Ddim yn bodloni'r meini prawf

Connect to – Cysylltwch â'r garthffos fudr

You will not be able – Ni fyddwch yn gallu cofrestru esemptiad ar gyfer y gollyngiad hwn. Bydd angen i chi wneud cais am drwydded amgylcheddol

1.4 Sut i ddefnyddio'r canllawiau?

Adran 1 – diffiniadau a gwybodaeth bwysig sydd angen i chi eu gwybod cyn cofrestru.

Adran 2 – trosolwg technegol o ofynion cofrestru a gwybodaeth am sut i amcangyfrif maint eich gollyngiad. Mae'r adran hon ar gyfer gosodwyr yn bennaf ond efallai y bydd y wybodaeth yn ddefnyddiol i chi hefyd.

Adran 3 – y meini prawf llawn ar gyfer cofrestru eich gollyngiad carthion bach gyda rhagor o wybodaeth ategol.

Adran 4 – amlinelliad o'ch rhwymedigaethau ar ôl cofrestru.

Mae rhestr o ddiffiniadau syml yn yr eirfa.

Atodiad A – dehongliadau diwygiedig o'r hyn a ystyrir yn garthion domestig.

1.5 Darllen Pellach

1.5.1 Gweithredu Codau Ymarfer y cytunwyd arnynt gan y diwydiant

Mae gwneuthurwyr a gosodwyr tanciau carthion ac unedau trin carthion y DU wedi cynhyrchu amrywiaeth o Godau Ymarfer sydd wedi'u cydnabod fel arferion gorau yn y diwydiant gan y Llywodraeth, rheoleiddwyr amgylcheddol y DU a rheoleiddwyr eraill.

Mae'r codau hyn wedi darparu cyngor a chanllawiau ymarferol ar osod, rheoli a chynnal a chadw unedau trin carthion ac maent yn ategu cyfarwyddiadau gweithredu'r gwneuthurwr. Pan gyhoeddir y Codau Ymarfer hyn, mae'n rhaid eu dilyn ar y cyd ag unrhyw gyfarwyddiadau gan y gweithgynhyrchwyr.

Mae'r Codau Ymarfer ar gael i'w lawrlwytho ar wefan Dŵr Prydain:

<http://www.britishwater.co.uk> (cliciwch ar *More Documents* ac *Industry Publications* i weld y Codau Ymarfer a'r Canllawiau Technegol)

Mae'r codau cyfredol yn cynnwys:

- *A guide for users of sewage treatment systems*
- *Flows and Loads 4 – Sizing criteria and treatment capacity ofr sewage treatment systems*
- *Guide to the installation of sewage treatment systems*
- *Guide to the desludging of sewage treatment systems*

- *A guide to the maintenance requirements for sewage treatment systems* (wrthi'n cael ei ddatblygu).

Os gall meddiannydd ddangos ei fod wedi dilyn y Codau Ymarfer, bydd hyn yn cael ei ystyried fel cyfraniad at gydymffurfio ag esemptiad cofrestredig. I osgoi unrhyw ddryswch, bydd cyfarwyddyd penodol y gwneuthurwr, lle bo ar gael, yn cael blaenoriaeth dros unrhyw Godau Ymarfer.

1.5.2 Canllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae rhagor o wybodaeth am ollyngiadau i ddŵr wyneb a dŵr daear yn ein canllawiau H1 ar asesu risg amgylcheddol.

Dim ond os ydych chi'n gwneud cais am drwydded amgylcheddol bwrpasol y mae angen i chi ddarllen y canllawiau mewn gwirionedd ond mae peth o'r wybodaeth yn rhoi cefndir defnyddiol.

2 Cefndir technegol

2.1 Math o ollyngiad

Mae'n rhaid trin gollyngiadau elifion carthion i **ddŵr wyneb** gydag uned trin carthion gryno.

Mae'n rhaid trin gollyngiadau elifion carthion i'r **ddaear** drwy system ymdreiddio / cae draenio, naill ai gyda thanc carthion neu uned trin carthion gryno. Bydd y math o system drin yn dibynnu ar addasrwydd y safle a'r angen i warchod nodweddion amgylcheddol sensitif.

Mae triniaeth bellach (fel gwely cyrs) ar gael hefyd.

2.2 Sut i gyfrifo'ch llif gollwng dyddiol

Caiff llif dyddiol ei gyfrif drwy ddefnyddio'r dull yng nghyhoeddiad Dŵr Prydain, *Flows and Loads 4*. Mae'n seiliedig ar yr isafswm poblogaeth tybiedig ar gyfer cartref. Cyfrifir cyfanswm y boblogaeth a'i luosi gyda'r defnydd safonol o 0.150 metr ciwbig y dydd fesul unigolyn.

Cymerir bod 5 o bobl yn byw mewn tŷ 3 ystafell wely. Ychwanegir unigolyn am bob ystafell wely ychwanegol:

Tŷ 3 ystafell wely = 5 o bobl

Tŷ 4 ystafell wely = 6 o bobl

Tŷ 5 ystafell wely = 7 o bobl

Yn achos tai 1 a 2 ystafell wely neu fflatiau cyfrifir yr isafswm poblogaeth tybiedig gan ddefnyddio'r canlynol:

Eiddo 1 ystafell wely = 3 o bobl

Eiddo 2 ystafell wely = 4 o bobl

Enghraifft – un tŷ wedi'i gysylltu â system drin

Llif tŷ 4 ystafell wely = 6×0.15 metr ciwbig yr unigolyn = 0.9 metr ciwbig y dydd

Enghraifft – mwy nag un tŷ wedi'i gysylltu â system drin

Ar gyfer grŵp o 2 dŷ o 3 a 4 ystafell wely, nifer y bobl yw $5+6 = 11$

Llif dyddiol = 11×0.15 metr ciwbig yr unigolyn = 1.65 metr ciwbig y dydd

Gweler *Flows and Loads 4* am ragor o wybodaeth.

Efallai y bydd dulliau eraill o gyfrif capasiti cynllunio ac uchafswm dyddiol yn bosibl ar gyfer mathau eraill o ollyngiadau ond na ellir eu defnyddio ar gyfer cofrestru gweithgaredd fel un esempt. Bydd angen gwneud cais am drwydded amgylcheddol ar gyfer y rhain.

Os nad ydych yn siŵr ffoniwch ni ar 0300 065 3000 (Llun-Gwe 8am - 6pm).

2.3 Gwybodaeth ychwanegol ar gyfer gollyngiadau newydd

Os ydych am gofrestru gollyngiadau **cyfredol** ewch i [Adran 3](#).

2.3.1 Cynllunio lleoliad gollyngiad

Cyn gosod system trin carthion newydd mae'n rhaid i chi gysylltu â'r awdurdod cynllunio lleol i weld a oes angen caniatâd cynllunio neu reolaethau adeiladu ychwanegol ar leoliad a'r gwaith o osod y system drin a/neu ollwng. Efallai y bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn gofyn am wybodaeth ategol neu asesiad safle (sef Asesiad Draeniad Budr) yn unol â Chylchlythyr 03/99 yr Adran dros Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau (DETR) (Cylchlythyr 10/99 y Swyddfa Gymreig). Mae hyn yn helpu'r awdurdod lleol i ystyried materion amgylcheddol a materion cynllunio ac adeiladu eraill.

Mae Cylchlythyr DETR a'r canllawiau Rheoliadau Adeiladu yn ei gwneud yn ofynnol i gael am system ddraenio ddigonol i gludo carthion a dŵr budr o gyfarpar yn yr adeilad i un o'r canlynol, sydd wedi'u rhestru yn nhrefn blaenoriaeth:

- carthffos gyhoeddus;
- carthffos breifat sy'n cysylltu â charthffos gyhoeddus;
- naill ai uned trin carthion neu danc carthion, gyda'r elifion yn gollwng i gae draenio a gynlluniwyd yn briodol neu i ddŵr wyneb fel y bo'n briodol;
- carthbwl pan na fo opsiwn arall ar gael.

Dylech gyfeirio at y canllawiau hyn hefyd: Trin a gwaredu carthion lle nad oes carthffos fudr ar gael: PPG4

Efallai y bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn gofyn i ymgeiswyr ystyried y gwahanol opsiynau cysylltu. Dim ond pan ellir dangos bod cost, ymarferoldeb neu gynaliadwyedd yn atal cysylltu â'r garthffos gyhoeddus fudr y bydd dulliau draenio amgen nad ydynt wedi'u cysylltu â'r brif system yn cael eu hystyried yn dderbyniol fel arfer, gan gynnwys dulliau fel gollyngiadau i ddŵr wyneb neu ollyngiadau i system ymdreiddio / cae draenio.

2.3.2 Rheoliadau lleoli a gosod

Ni ddylai gollyngiadau carthion bach ymyrryd â buddiannau amgylcheddol, dŵr daear na chadwraeth natur sensitif. Dim ond pan fo modd ystyried nad yw'r gollyngiadau yn achosi risg o lygredd i'r derbynyddion sensitif hyn y gellir cofrestru'r gollyngiadau hyn.

2.3.3 Safonau dylunio a gweithgynhyrchu

Mae llawer o'r unedau trin carthion cryno a thanciau carthion sydd ar gael yng Nghymru a Lloegr wedi'u dylunio, eu cynhyrchu a'u hadeiladu ymlaen llaw fel unedau modwlar yn unol â safonau dylunio Prydeinig neu Ewropeaidd.

Mae'r Safon Brydeinig (BSEN12566) gyfredol ar gyfer dylunio ac adeiladu'n cynnwys y gofynion Ewropeaidd sylfaenol ar gyfer unedau trin carthion cryno a thanciau carthion ar gyfer hyd at 50 o bobl.

Mae'r systemau sy'n gydnaws â Safon BSEN12566 wedi bod trwy brofion dylunio, adeiladu a / neu berfformiad helaeth yn unol â gofynion Safonau Prydeinig ac yn cael eu hystyried yn addas ar gyfer cofrestru. Bydd eich gosodwr yn gallu eich helpu gyda hyn neu eich cyfeirio at unrhyw ddogfennau y dylech eu cael.

Efallai fod systemau trin eraill nad ydynt wedi'u dylunio neu eu hadeiladu i'r Safon Brydeinig berthnasol yn dal i fod ar gael i'w defnyddio yng Nghymru. Fodd bynnag, ni ellir cofrestru'r gollyngiadau hyn fel rhai esempt. Bydd eu defnydd yn dibynnu ar gais am drwydded amgylcheddol a bydd angen i'r ymgeisydd ddangos bod y system arfaethedig yn gallu gweithredu i'r un lefel o berfformiad â'r rhai a brofwyd o dan y Safon Brydeinig.

Dylech gael cadarnhad o safonau dylunio ac adeiladu'r system trin carthion gan y gwneuthurwr neu eu deunydd darllen.

Mae'r rhannau perthnasol o'r Safon Brydeinig ar gael gan ddsbarthwyr Safon Brydeinig hefyd neu efallai y byddant ar gael gan wneuthurwyr yr unedau trin.

Mae cymdeithas fasnach gwneuthurwyr y DU (Dŵr Prydain) yn cadw rhestr o wneuthurwyr systemau trin carthion cryno a all fod wedi profi eu hunedau i safonau BSEN12566. Gallwch gysylltu â nhw yn www.britishwater.co.uk

2.3.4 Gosod tanciau carthion, unedau trin carthion a chaeau draenio

Gall gosod cyfarpar trin carthion yn anghywir olygu nad yw'r system yn gweithredu'n effeithiol neu gall achosi llygredd.

Dylai gwneuthurwyr ddarparu cyfarwyddiadau gosod clir pan fyddant yn cyflenwi'r cyfarpar. Yn aml, mae'r warant a roddir gyda'r uned yn ei gwneud yn ofynnol i'r system gael ei gosod gan beiriannydd gosod cymwys.

Dylech ddilyn Codau Ymarfer y diwydiant ar gyfer gosod systemau trin carthion bach yn cynnwys tanciau carthion ac unedau trin carthion cryno ac unrhyw ofynion rheoliadau adeiladu gan yr awdurdod lleol.

3 Meini prawf ar gyfer cofrestru

Mae'r adran hon yn cynnwys y meini prawf ar gyfer cofrestru gollyngiadau. Mae pob maen prawf mewn bocs ac yna ceir disgrifiad o'r hyn mae'n ei olygu. Mae rhai meini prawf yn berthnasol i ollyngiadau newydd a chyfredol a bydd rhai yn berthnasol i ollyngiadau i ddŵr wyneb a'r ddaear. Nodir hyn yn glir ym mhob bocs.

3.1 Meini prawf ar gyfer gollyngiadau carthion bach

Mae'r meini prawf canlynol yn berthnasol i bob gollyngiad.

Os ydych chi'n gollwng i ddŵr wyneb bydd angen i chi ddarllen Adran 3.2 hefyd.

Os ydych chi'n gollwng i'r ddaear bydd angen i chi ddarllen Adran 3.3 hefyd.

3.1.1 Uchafsymiau dyddiol ar gyfer gollyngiadau i'r ddaear: Gollyngiadau newydd a chyfredol

Mae'n rhaid i uchafswm gollyngiadau elifion carthion o danc carthion neu uned trin carthion gryno i'r ddaear drwy system ymdreiddio / cae draenio fod yn 2 fetr ciwbig y dydd neu lai

Gollyngiadau i ddŵr wyneb: Gollyngiadau newydd a chyfredol

Mae'n rhaid i uchafswm gollyngiadau elifion carthion o uned trin carthion gryno i ddŵr croyw mewndirol, dyfroedd arfordirol neu ddyfroedd tiriogaethol perthnasol fod yn 5 metr ciwbig y dydd neu lai

Gweler sut i amcangyfrif gollyngiadau yn [Nhabl 2](#).

3.1.2 Diffinio gollyngiadau domestig

Gollyngiadau i ddŵr wyneb a'r ddaear:	Gollyngiadau newydd a chyfredol
Ar gyfer cofrestru, rhaid i'r carthion fod yn ddomestig ac ni ddylent gynnwys elifion masnach	

Mae'r system newydd wedi gwneud i ni edrych eto ar ein diffiniad o 'garthion domestig' a newid i'r un sy'n seiliedig ar ddiffiniad y Gyfarwydddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol (UWWTDD), Deddf y Diwydiant Dŵr (WIA) 1991 a chyfraith achosion.

Yn y canllawiau hyn, ystyr **carthion domestig** yw elifion o eiddo a gwasanaethau preswyl sy'n deillio'n bennaf o fetabolaeth ddynol a gweithgareddau yn y cartref. Mae carthion domestig yn cynnwys gwastraff sy'n deillio o weithgareddau domestig arferol ble bynnag mae hyn yn digwydd. Felly, mae carthion o gartrefi preswyl, bwytai, siopau tecawê a chartrefi nyrsio yn ddomestig.

Nid oes angen cynnal archwiliad manwl o'r sylweddau a ddefnyddir gan ymgeisydd ar safle penodol er mwyn penderfynu a yw gollyngiad yn cynnwys **elifion masnach**. Os yw'r elifion o natur ddomestig yn bennaf, carthion domestig ydynt. Os yw cyfran sylweddol o'r gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu gan fenter fasnachol yn wahanol i'r hyn a geir mewn cartref arferol yna mae'n gymysgedd o garthion domestig ac elifion masnach. Ni fyddai hwn yn gymwys i gael ei gofrestru.

Mae [Atodiad A](#) yn darparu rhagor o wybodaeth am ein dehongliad diwygiedig o elifion domestig neu fasnach.

3.1.3 Gwiriadau rheolaidd

Gollyngiadau i ddŵr wyneb a'r ddaear:

Gollyngiadau newydd a chyfredol

Mae'n rhaid i'r system trin carthion gael ei gweithredu a'i chynnal:

(a) yn unol â chynllun cynnal a chadw sydd yng nghyfarwyddiadau cynnal a chadw'r gwneuthurwr neu amserlen gynnal a chadw arall a fabwysiadwyd gan y meddiannydd mewn perthynas â Chod Ymarfer y diwydiant gweithgynhyrchu, *Code of Practice: A guide for users of small wastewater treatment systems for package sewage treatment plants and septic tanks*

(b) gan unigolyn cymwys o ran y cyfrifoldebau sydd i'w cyflawni ganddo mewn cysylltiad â gweithredu'r gollyngiad

Mae'n bwysig hefyd bod y gweithredwr yn cynnal gwiriadau rheolaidd; dylai'r gwneuthurwr allu awgrymu dulliau syml o sicrhau bod systemau'n gweithio'n gywir.

Dylai perchnogion gael gafael ar gyfarwyddiadau gweithredu'r gwneuthurwyr neu gyflenwyr a'u gwirio er mwyn gwybod beth yw'r amserlen ar gyfer gwaith cynnal a chadw neu ddefnyddio'r safonau diwydiant cyffredinol sydd yn y *Code of Practice: A guide for users of small wastewater treatment systems.*

3.1.4 Clirio slwtsh carthion o'r system drin

Gollyngiadau i ddŵr wyneb a'r ddaear:

Gollyngiadau newydd a chyfredol

Mae'n rhaid gwaredu slwtsh carthion o system drin carthion yn ddiogel mewn ffordd briodol wedi'i rheoli, gan ddefnyddio contractwyr gwaredu cymwys awdurdodedig

Mae angen unigolyn awdurdodedig i glirio slwtsh carthion o bob system trin carthion, gan wneud hynny mor aml ag yr argymhellir gan y gwneuthurwr neu'n unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer gwneuthurwyr a gosodwyr unedau trin carthion cryno a thanciau carthion.

Mae rhagor o fanylion ar gael yn y Cod Ymarfer ar gyfer gwneuthurwyr - *Code of Practice: Guide to desludging of package sewage treatment systems and septic tanks.*

Pan fyddwch yn trefnu i waredu eich slwtsh carthion mae gennych chi ddyletswydd gyfreithiol a chymdeithasol i'w reoli'n ddiogel, sef 'dyletswydd gofal'. Mae dyletswydd gofal yn ei gwneud yn ofynnol i chi gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y gwastraff yn cael ei reoli'n gywir gan unigolyn awdurdodedig. Mae'r ddyletswydd gofal yn berthnasol i bawb sy'n ymdrin â'r gwastraff slwtsh, o'r unigolyn sy'n ei gynhyrchu i'r unigolyn sy'n ei dderbyn yn y pen draw.

Dylech sicrhau eich bod yn defnyddio unigolyn awdurdodedig i gwblhau'r gwaith clirio a gwaredu slwtsh. Mae'n rhaid i'r contractwr clirio slwtsh fod wedi'i gofrestru

gyda ni fel cludydd gwastraff ac mae'n rhaid i'r deunydd gael ei reoli'n briodol mewn cyfleuster gwastraff a ganiateir neu gan ddefnyddiwr cyfreithlon y deunydd. Dylai fod gan bob cludydd gwastraff awdurdodedig sydd wedi cofrestru gyda ni dystysgrif cofrestru ar gael i'w archwilio.

Dylech sicrhau hefyd eich bod yn derbyn nodyn trosglwyddo dyletswydd gofal gan y contractwr clirio slwtsh, sy'n disgrifio faint o ddeunydd a gliriwyd a manylion yr unigolyn sy'n derbyn y gwastraff. Dylech gadw'r nodiadau hyn ar gyfer eich cofnodion.

3.1.5 Cadw cofnodion

Gollyngiadau i ddŵr wyneb a'r ddaear:	Gollyngiadau newydd a chyfredol
--	--

Mae'n rhaid cadw cofnodion darllenadwy sy'n dangos cydymffurfiaeth â gofynion cynnal a chadw a dylid eu cadw am o leiaf 5 mlynedd o ddyddiad llunio'r cofnodion. Dylech drosglwyddo unrhyw gofnodion i'r meddiannydd newydd os ydych yn symud tŷ.

Mae'n rhaid cadw cofnodion digonol i ddangos bod y system drin yn cael ei chynnal a'i chadw'n briodol. Bydd gofyn cadw cofnodion cynnal a chadw, sy'n cynnwys manylion gwasanaethu, clirio slwtsh carthion ac unrhyw waith trwsio a wnaed ar y system ac mae'n rhaid trosglwyddo'r rhain i'r meddiannydd nesaf os ydych chi'n gadael neu werthu'r eiddo. Er y bydd unrhyw gofnodion a wnaed cyn cofrestru yn ddefnyddiol, dim ond o'r dyddiad cofrestru y mae'n rhaid i chi ddechrau cadw cofnodion, a hynny am bum mlynedd.

3.1.6 Atal Llygredd

Gollyngiadau i ddŵr wyneb a'r ddaear:	Gollyngiadau newydd a chyfredol
--	--

Ni ddylai'r gollyngiadau lygru dŵr daear na dŵr wyneb.

Dylai system trin carthion sydd wedi'i chynllunio, ei hadeiladu, ei gosod, ei gweithredu a'i chynnal a chadw'n briodol gynhyrchu elifion y gellir eu gollwng yn ddiogel i'r amgylchedd heb achosi llygredd, niwed i fywyd gwyllt na niwed i iechyd pobl. Mae peidio ag achosi llygredd yn amod cyffredinol ar gyfer cofrestru a gweithredu gollyngiadau esempt.

3.1.7 Gofynion gweithredu

Gollyngiadau i ddŵr wyneb a'r ddaear:	Gollyngiadau cyfredol yn unig
--	--------------------------------------

Mae'n rhaid i'r gollyngiadau cyfredol a osodwyd cyn 6 Ebrill 2010 fod wedi'u cynllunio a'u hadeiladu yn unol â'r safonau perthnasol (er enghraifft, y Safon Brydeinig) ar yr adeg y cawsant eu gosod yn wreiddiol. Rhaid i chi allu cadarnhau bod yr uned yn parhau i weithredu yn unol â chyfarwyddiadau gweithredu'r

gwneuthurwr neu'r codau ymarfer perthnasol a all gael eu cyhoeddi gan y gwneuthurwyr drwy eu cymdeithas fasnach.

Gollyngiadau i ddŵr wyneb a'r ddaear:

Gollyngiadau newydd yn unig

O 6 Ebrill 2010, mae'n rhaid dylunio unedau newydd neu rai a gyfnewidir yn unol â'r safonau canlynol:

BSEN 12566: 2000 Rhan I unedau parod

BSEN 12566: 2007 Rhan IV ar gyfer tanciau carthion sy'n cael eu cydosod yn y fan a'r lle o unedau parod

BSEN 12566: 2005 Rhan III ar gyfer unedau trin carthion domestig neu offer trin carthion domestig sy'n cael eu cydosod ar y safle

Gall tanciau carthion ac unedau trin carthion fod yn ffordd effeithiol a darbodus o drin elifion carthion domestig o eiddo unigol neu gymunedau bach pan nad yw hi'n bosibl cysylltu â'r garthffos gyhoeddus fudr neu garthffos fudr arall. O'u cynllunio a'u gosod yn gywir, bydd y systemau hyn darparu blynyddoedd lawer o wasanaeth ond mae'n rhaid eu cynnal a'u cadw'n briodol hefyd i sicrhau eu bod yn dal i weithio'n effeithiol. I gofrestru'r rhain fel esemptiadau, rhaid i bob gwaith a chyfarpar a ddefnyddir ar gyfer trin a gollwng elifion carthion fodloni rhai gofynion mewn perthynas â:

- safonau dylunio a gweithgynhyrchu;
- lleoli a gosod;
- gofynion gweithredu a chynnal a chadw.

3.1.8 Cysylltu â'r garthffos gyhoeddus fudr

Gollyngiadau i ddŵr wyneb a'r ddaear:

Gollyngiadau newydd yn unig

Ni ddylai eiddo gyda gollyngiadau newydd fod o fewn 30 metr i garthffos gyhoeddus fudr.

Lle mae yna fwy nag un eiddo sydd angen carthffosiaeth, cyfrifir y pellter o'r garthffos gyhoeddus y gellir cysylltu â hi'n rhesymol, drwy luosi 30 metr gyda nifer yr eiddo.

Mae'n rhaid i chi gysylltu â'r garthffos gyhoeddus fudr pan fo'r gollyngiadau o fewn ardal garthffosiaeth gyhoeddus. Nid yw'n bosibl cofrestru gollyngiadau newydd os yw cysylltu â'r garthffos gyhoeddus fudr yn ymarferol, felly ni fyddwn yn cofrestru gollyngiadau os yw'r eiddo o fewn 30 metr i garthffos gyhoeddus fudr. Mae'r pellter yn cynyddu'n gyfrannol lle mae nifer o eiddo angen draeniad budr.

Fel arfer, byddwn yn ystyried mai o'r pwynt lle mae'r draen yn gadael yr adeilad mae'n ei wasanaethu y dylid mesur y pellter i'r garthffos fudr.

Os ydych mewn ardal lle mae yna system garthffosiaeth ac nad ydych yn gallu cofrestru, ond eich bod am ollwng elifion, gallwch wneud cais am drwydded amgylcheddol. Dylech nodi mai dim ond os gallwch ddangos yn glir bod yna fanteision cyffredinol i gynaliadwyedd, y byddwn yn rhoi trwydded, ac yna fydd unrhyw effaith ar yr amgylchedd, ac nad yw'n ymarferol cysylltu â charthffos gyhoeddus fudr neu garthffos fudr arall yn sgil cost ac / neu ymarferoldeb.

I gael gwybodaeth am geisiadau newydd am ollyngiadau, gweler: Trin ac atal carthion lle nad oes carthffos fudr ar gael: PPG4

3.1.8.1 Sut mae gwybod os ydw i mewn ardal garthffosiaeth?

Dylech ofyn i'r ymgwymerwr carthffosiaeth lleol (y cwmni dŵr lleol fel arfer) a yw hi'n bosibl cael cysylltiad addas i'r garthffos fudr. Pan fo'r cynnig yn agos at garthffos gyhoeddus gyfredol, cysylltiad â'r garthffos yw'r opsiwn mwyaf cynaliadwy a chost-ffeithiol mae'n debyg a'r opsiwn sydd fwyaf tebygol o fod yn ofynnol gan yr awdurdod lleol drwy swyddogaethau cynllunio a rheoli adeiladu.

3.1.8.2 Systemau cyfredol mewn ardal garthffosiaeth

Gellir cofrestru gollyngiadau elifion carthion bach cyfredol hyd yn oed os ydynt wedi'u lleoli mewn ardal garthffosiaeth, cyn belled eu bod yn gweithio'n foddhaol ac nad ydynt yn achosi llygredd (oni bai fod y gollyngiadau i'r ddaear o fewn Ardal Diogelu Tarddiad Dŵr (SPZ1) neu o fewn 50m o unrhyw ffynnon neu dwll turio a ddefnyddir i gyflenwi dŵr - gweler Adran 3.3.1).

3.1.9 Caniatâd cynllunio gwlad a thref a chaniatâd rheoli adeiladu

Gollyngiadau i ddŵr wyneb a'r ddaear:

Gollyngiadau newydd yn unig

Ar gyfer gollyngiadau newydd, mae'n rhaid i'r meddiannydd gael unrhyw ganiatâd cynllunio a chaniatâd rheoli adeiladu sydd ei angen ar gyfer y system drin a'r gollyngiadau

Rydym yn disgwyl i'r rhai sydd am gofrestru eu system trin carthion i gadarnhau gyda'u hawdurdod cynllunio lleol a yw'r system angen caniatâd cynllunio a/neu ganiatâd rheoli adeiladu. Pan fo angen hynny, dylid cael caniatâd cyn cofrestru.

Mae Rheoliadau Adeiladu Cymru a Lloegr 2010 yn cael eu hategu gan Ddogfen ganllaw H2 ar fodloni gofynion draenio a gwaredu dŵr gwastraff.

3.1.10 Gwarchod buddiannau cadwraeth

Gollyngiadau i ddŵr wyneb a'r ddaear:

Gollyngiadau newydd yn unig

Ni ddylai unrhyw ollngiadau newydd fod mewn lleoliad sydd o fewn y pellteroedd sgrinio a ddiffinnir ar gyfer ardaloedd cadwraeth natur sensitif.

Gall gollyngiadau o elifion fod yn niweidiol i rai ardaloedd, cynefinoedd a rhywogaethau sensitif. Os yw'ch gollyngiadau'n newydd ac yn agos at ardal cadwraeth natur sensitif byddwn yn gwirio hyn i chi. Byddwn yn ysgrifennu atoch i ddweud a oes angen i chi wneud cais am drwydded amgylcheddol.

Mae Tabl 3 yn dangos y pellteroedd sgrinio o fuddiannau cadwraeth natur dynodedig a noddwyd, a ddefnyddir i asesu a fydd cofrestru'n dderbyniol yn yr ardaloedd hynny. Gellir cofrestru gollyngiadau carthion bach hyd yn oed oes ydynt o fewn y pellteroedd sgrinio, cyn belled bod y system trin carthion yn gweithio'n foddhaol ac nad yw'r gollyngiadau'n achosi llygredd.

Tabl 3. Pellteroedd sgrinio ar gyfer safleoedd cadwraeth natur

Dynodiad Cadwraeth Natur, yn cynnwys safleoedd Ewropeaidd †	Pellteroedd Sgrinio (metrau) lle nad oes modd cofrestru ar gyfer:	
	gollyngiadau i'r ddaear	gollyngiadau i ddŵr wyneb
Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)	50	500
Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA)	50	500
Safleoedd Ramsar	50	500
Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)	50	500
Poblogaeth cregyn glas perl dŵr croyw	N/A	500
Gwarchodfa natur ddyfrol leol	N/A	200
Safle bywyd gwyllt dyfrol lleol	N/A	50
Nid mewn Coetir Hynafol	0*	N/A
Rhywogaethau a Warchodir	N/A	500

† Ystyr "Safle Ewropeaidd" yw ymgeisydd neu Ardal Cadwraeth Arbennig ac Ardal Gwarchod Arbennig yng Nghymru a Lloegr, o fewn ystyr Cyfarwyddbau'r Cyngor 2009/147/EC ar warchod adar gwyllt a 92/43/EEC ar warchod cynefinoedd naturiol a Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010. Mae safleoedd RAMSAR gyda dynodiad rhyngwladol ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig arfaethedig yn cael eu trin yn yr un ffordd â safleoedd Ewropeaidd fel mater sy'n rhan o bolisi'r Llywodraeth a byddant yn cael eu hystyried fel safleoedd Ewropeaidd at ddiben y rheolau hyn.

* ni ddylai fod o fewn ffin y safle.

Ar gyfer **gollyngiadau i'r ddaear** ewch i [Adran 3.3](#)

3.2 Meini prawf ychwanegol ar gyfer gollyngiadau i ddŵr wyneb

3.2.1 Ardaloedd llanw

Gollyngiadau i ddŵr wyneb:	Gollyngiadau newydd a chyfredol
----------------------------	---------------------------------

Mewn ardaloedd llanw, mae'n rhaid i'r ollyngfa fod wedi'i lleoli yn is na therfyn llanw Cymedr Trai'r Gorllanw Mawr (MLWS)

Mae marc llanw MLWS i'w weld ar fapiau Arolwg Ordnans fel arfer. Lle bo'n rhesymol bosibl, mae'n well gennym fod gollyngiadau yn cael eu gwneud islaw'r pwynt hwn i atal carthion rhag llifo ar draws traethau, gwelyau afonydd agored neu wastadeddau llaid er enghraifft.

3.2.2 Gwarchod dyfroedd ymdrochi a physgod cregyn

Gollyngiadau i ddŵr wyneb:	Gollyngiadau newydd yn unig
----------------------------	-----------------------------

Ni ddylai unrhyw ollyngiadau newydd i ddŵr wyneb ddigwydd mewn lleoliad sydd o fewn y pellteroedd sgrinio a ddiffiniwyd ar gyfer dyfroedd ymdrochi neu bysgod cregyn (Tabl 4)

Mae angen mesurau rheoli i ddiogelu iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd, yn enwedig mewn perthynas â llygredd o ysgarthion a'r risg o halogiad microbiolegol.

Mae Tabl 4 yn darparu'r pellteroedd sgrinio ar gyfer gwarchod dyfroedd ymdrochi dynodedig (byddwn yn gwirio hyn i chi).

Tabl 4. Pellteroedd sgrinio o ddyfroedd ymdrochi a physgod cregyn

Dynodiad y CE o fudd amgylcheddol Dyfroedd Ymdrochi a Physgod Cregyn	Pellteroedd Sgrinio (metrau) nad yw'n bosibl cofrestru o'u mewn
Dyfroedd pysgod cregyn	500
Dyfroedd ymdrochi	500

Ni ellir cofrestru gollyngiadau newydd i ddyfroedd llanw gyda gollyngfeydd sy'n uwch na therfyn llanw Cymedr Trai'r Gorllanw Mawr (MLWS) fel gweithgaredd esempt ac mae'n rhaid i feddianwyr wneud cais am drwydded amgylcheddol. Efallai y bydd gollyngiadau a wneir mewn ardaloedd llanw angen trwydded gan Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

3.2.2.1 Systemau cyfredol o fewn pellteroedd sgrinio ar gyfer dyfroedd ymdrochi a physgod cregyn

Gellir cofrestru gollyngiadau carthion bach cyfredol hyd yn oed os ydynt yn dod o fewn y pellteroedd sgrinio ar gyfer dyfroedd ymdrochi a physgod cregyn, cyn belled bod y system drin carthion yn gweithio'n foddhaol ac nad yw'n achosi llygredd.

3.2.3 Gollwng i ddŵr wyneb addas

At ddibenion cofrestru, caiff dŵr wyneb ei ddiffinio fel:

- **Dyfroedd croyw mewndirol** (fel afon, nant, cwrs dŵr neu gamlas);
- **dyfroedd arfordirol** (fel aber);
- **dyfroedd tiriogaethol** perthnasol (y môr hyd at dair milltir o'r lan).

Ni allwch gofrestru gollyngiadau i lyn neu bwll caeedig.

Gollyngiadau i ddŵr wyneb:	Gollyngiadau newydd yn unig
Mae'n rhaid i'r gollyngiadau gael eu gwneud i gwrs dŵr sy'n cynnwys dŵr gydol y flwyddyn fel arfer. Ni ellir gollwng i lyn neu bwll caeedig	

Mae'n rhaid i elifion carthion wedi'u trin gael eu gwanhau a'u gwasgaru i ryw raddau wrth gael eu gollwng i ddŵr wyneb er mwyn atal Marweidd-dra a llygredd. Am y rheswm hwn, nid yw'n bosibl cofrestru gollyngiadau newydd i ffos neu gwrs dŵr nad yw'n cynnwys dŵr gydol y flwyddyn mewn amgylchiadau arferol. Amgylchiadau arferol fyddai unrhyw beth ac eithrio sychder neu gyfnodau maith anarferol o dywydd sych. Ni ellir cofrestru gollyngiadau i gyrsiau dŵr sy'n sychu yn dymhorol. Hefyd, yn sgil yr angen i asesu'r effeithiau posibl yn llawn, nid yw'n bosibl cofrestru gollyngiadau i lynnoedd neu byllau caeedig; bydd angen gwneud cais am drwydded.

Gollyngiadau i ddŵr wyneb:	Gollyngiadau newydd yn unig
Mae'n rhaid i systemau draenio sy'n cynnwys system ymdreiddio rannol / cae draenio cyn gollwng i ddŵr wyneb gynnwys uned trin carthion gryno ac mae'n rhaid gosod y cae draenio o fewn 10 metr i lan y cwrs dŵr	

Os oes angen gosod system ymdreiddio rannol / cae draenio cyn gollwng i gwrs dŵr, mae'n rhaid defnyddio uned trin carthion gryno ac mae'n rhaid gosod y system ddraenio o fewn 10 metr i lan y cwrs dŵr. Mae'n rhaid cofrestru system ymdreiddio rannol fel gollyngiad i ddŵr wyneb.

3.2.3.1 Gollyngiadau cyfredol i ddŵr wyneb

Gellir cofrestru gollyngiadau elifion carthion bach cyfredol fel gollyngiadau i ddŵr wyneb os yw'n llyn neu'n bwl, neu'n sychu'n dymhorol, cyn belled bod y system drin carthion yn gweithio'n foddhaol ac nad yw'n achosi llygredd.

Os ydych yn **gollwng i ddŵr wyneb** ewch i [Adran 4](#).

3.3 Meini prawf ychwanegol ar gyfer gollwng i'r ddaear

3.3.1 Gwarchod tynnu dŵr daear

Gollyngiadau i'r ddaear:	Gollyngiadau newydd a chyfredol
Ni ddylid gollwng i'r ddaear o fewn Ardal Diogelu Tarddiad Dŵr 1 neu o fewn 50 metr i ffynnon neu dwll turio a ddefnyddir i gyflenwi dŵr	

Ni fyddwch yn gallu cofrestru gollyngiadau cyfredol os ydynt yn dod o fewn [Ardal Diogelu Tarddiad Dŵr 1](#) (SPZ1) ond gallwch wneud cais am drwydded (gweler [Adran 3.3.1.2](#)).

3.3.1.1 Ardal Diogelu Tarddiad Dŵr 1

Rydym yn cydnabod tair [Ardal Diogelu Tarddiad Dŵr](#) (SPZs) i ffynhonnau, tarddellau neu dyllau turio a ddefnyddir i gyflenwi dŵr at ddibenion domestig neu gynhyrchu bwyd. SPZ1 yw'r rhan yng nghanol yr ardaloedd hyn sy'n cynrychioli'r ardal o amgylch ffynhonnell y cyflenwad sydd fwyaf agored i lygredd. Rydym yn defnyddio'r un dull gyda chyflenwadau dŵr yfed preifat ond gan nad ydym yn cadw'r cofnodion hyn mae'r SPZ1 yn seiliedig ar radiws rhagosodedig o 50 metr. Ar ôl cofrestru, byddwn yn gwirio nad yw'r gollyngiadau o fewn SPZ1. Fodd bynnag, dylai'r ymgeisydd wirio cyn cofrestru nad oes unrhyw ffynhonnau, tyllau turio neu darddellau dŵr daear o fewn 50 metr i'r gollyngiad.

3.3.1.2 Gollyngiadau cyfredol yn SPZ1

Mae gollyngiadau awdurdodedig cyfredol mewn SPZ1 (caniatâd o dan Ddeddf Adnoddau Dŵr, 1991) yn dod yn drwyddedau amgylcheddol yn awtomatig. Mae ein safbwynt ar ollyngiadau cyfredol na chaniateir o elifion carthion i'r ddaear mewn SPZ1 fel a ganlyn:

- Byddwn yn parhau i drin ceisiadau am drwydded ar gyfer gollyngiadau cyfredol â chydymdeimlad lle mae yna ddigon o dystiolaeth nad yw ac na fydd y gollyngiad yn achosi problemau. Os yw gollyngiadau o'r gwaith tynnu dŵr wedi bod yn cyd-redeg ers nifer o flynyddoedd heb broblem amlwg byddwn yn caniatáu'r gollyngiad fel arfer.
- Os ydym yn canfod achos o ollwng na chaniateir mewn SPZ1 a bod dystiolaeth o lygredd neu risg sylweddol o lygredd, byddwn yn cyflwyno

rhybudd, naill ai i gael trwydded (os ydym yn credu bod modd newid / trin y gollyngiad i osgoi llygredd) neu'n gwahardd y gweithgaredd.

3.3.2 Gollyngiadau i'r ddaear o danc carthion neu uned trin carthion gryno drwy system ymdreiddio / cae draenio

Gollyngiadau i'r ddaear:

Gollyngiadau cyfredol yn unig

Yn achos gollyngiadau cyfredol, mae'n rhaid gosod y system ymdreiddio / cae draenio yn unol â'r gofynion lleoli, dylunio a gosod perthnasol sydd mewn grym ar adeg y gwaith gosod, yn cynnwys y Safon Brydeinig, os yn berthnasol

Gollyngiadau i'r ddaear:

Gollyngiadau newydd yn unig

Ar gyfer gollyngiadau newydd, mae'n rhaid gosod yr ollyngfa o'r system drin i system ymdreiddio / cae draenio yn unol â gofynion lleoli a gosod Safon Brydeinig BS 6297 a oedd mewn grym ar adeg y gwaith gosod, sef BS 6297:2007+A1:2008

Mae'n rhaid i chi sicrhau bod risgiau amgylcheddol y gollyngiad arfaethedig i'r ddaear wedi'u hystyried yn unol â Safon Brydeinig BS 6297+A1:2008

Mae BS 6297:2007+A1:2008 (neu ddiwygiadau dilynol) yn Godau Ymarfer Safonau Prydeinig wedi'u diwygio'n llwyr sy'n darparu argymhellion a chanllawiau ar gynllunio a gosod systemau ymdreiddio draenio budr i'w defnyddio i drin dŵr gwastraff (carthion). Mae'r safon hon yn disodli'r safon flaenorol (BS 6297:1983) sydd wedi'i dileu bellach.

Mae BS 6297:2007+A1:2008 (neu ddiwygiadau dilynol) yn cynnwys gwybodaeth fanwl am waith ymchwilio a chynllunio safle rhagarweiniol, adeiladu tyllau treialu a phroffion treiddio i sicrhau bod y safle'n addas ar gyfer gollwng i'r ddaear. Mae hyn yn cynnwys canllawiau ar sut i gynnal arolwg o'r ardal gyfagos (a elwir yn Arolwg Buddiannau Dŵr yn aml) i helpu i nodi unrhyw ffynhonnell dŵr daear a allai gael ei defnyddio i gyflenwi dŵr yfed.

Bydd eich gosodwr yn gyfarwydd â'r dogfennau hyn.

Ni ellir cofrestru gollyngiadau newydd na allant gydymffurfio â BS 6297 (2007+A1:2008) fel gweithgaredd esempt a bydd angen i feddianwyr wneud cais am drwydded amgylcheddol.

4 Ar ôl cofrestru

4.1 Gofynion gweithredu a chynnal a chadw

Mae angen gwneud gwaith cynnal a chadw ar bob system carthion bach i sicrhau eu bod yn parhau i weithredu'n foddhaol. Mae angen amgylchedd sefydlog er mwyn i system trin carthion weithio'n dda. Dylid diogelu systemau trin rhag sylweddau a allai niweidio a lladd micro-organebau sy'n helpu i ddadelfennu elifion carthion.

Ni ddylid gadael i gemegion, olewau, hydoddyddion, saim a chynhyrchion glanhau a brwshys paent ac ati fynd i mewn i'r system. Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn y *British Water Code of Practice – A Guide for Users of Small Wastewater Treatment Systems*.

Sylwch:

- Mae'r rhan fwyaf o unedau trin carthion cryno angen cyflenwad trydan parhaus.
- Ni ddylai dŵr to glân, heb ei halogi na dŵr wyneb fynd i mewn i'r system.
- Dylid comisiynu system newydd yn llawn yn unol â manyleb y gwneuthurwr cyn dechrau.
- Dylai'r gosodwr drosglwyddo'r uned yn ffurfiol i'r defnyddiwr gan roi cyfarwyddiadau ar sut i weithredu'r uned.

Mae'n rhaid i feddianwyr newydd sicrhau bod llawlyfr gweithredu a gofynion cynnal a chadw'r gwneuthurwr yn cael eu disgrifio'n llawn wrth drosglwyddo cyfrifoldeb am weithredu'r system.

4.2 Defnyddio peirianwyr a gweithwyr gwasanaethu cymwys

Mae angen rhoi gwasanaeth proffesiynol i'r rhan fwyaf o unedau trin carthion cryno bob 12 mis gyda gwiriad manwl bob 6 mis. Mae hyn yn angenrheidiol yn y flwyddyn gyntaf hyd yn oed pan fo cydrannau dan warant. Mae'n rhaid i waith cynnal a chadw rheolaidd ar y system ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, gan ddefnyddio gweithredwyr gwasanaeth sydd â phrofiad o ymdrin â systemau trin carthion. Yn aml, caiff hyn ei wneud drwy gytundeb cynnal a chadw gyda chwmni gwasanaethu awdurdodedig.

Mae Dŵr Prydain wedi cyflwyno cynllun hyfforddi ac ardystio ar gyfer peirianwyr gwasanaethu systemau trin dŵr gwastraff bach i'w aelodau. Mae manylion y cynllun ar wefan Dŵr Prydain.

4.3 Sicrhau bod y statws esempt yn cael ei gynnal

Mae'n rhaid bodloni'r meini prawf a nodir yn y ddogfen hon er mwyn gallu cofrestru gollyngiad yn y lle cyntaf. Yna bydd rhaid bodloni'r holl feini prawf sy'n berthnasol i'r gollyngiad er mwyn cadw'r cofrestriad. Er enghraifft, mae'n rhaid adolygu'r system os ychwanegir tŷ newydd neu estyniad mawr iddo. Os nad ydynt yn bodloni'r meini prawf, gall yr esemptiad gael ei ddileu o'r gofrestr ac efallai y bydd rhaid gwneud cais am drwydded.

4.4 Trosglwyddo'r cofrestriad i feddiannydd newydd

Unwaith y byddwn wedi cofrestru'r gollyngiad carthion bach fel gweithgaredd esempt, mae'n parhau i fod yn esempt cyn belled bod y meini prawf uchod yn cael eu bodloni. Nid oes angen rhoi gwybod i ni fod eiddo yn newid dwylo a bod meddiannydd newydd yn cymryd cyfrifoldeb am y gollyngiad. Fodd bynnag, mae yna

ddyletswydd o dan y rheoliadau i'r meddiannydd cyfredol ddarparu'r canlynol yn ysgrifenedig i'r meddiannydd nesaf:

- y ffaith bod gweithgaredd gollwng dŵr esempt neu weithgaredd dŵr daear yn cael ei gyflawni ar y tir;
- disgrifiad o'r cyfleuster esempt;
- y meini prawf sy'n rhaid eu bodloni;
- cofnodion unrhyw waith cynnal a chadw a thrwsio (o leiaf 5 mlynedd)

Dylai'r cadarnhad cofrestru y byddwch chi'n ei dderbyn gennym ni a chopi o'r canllawiau hyn (neu unrhyw ddiweddariadau pellach) fodloni'r 3 gofyniad cyntaf fel arfer.

4.5 Dadgofrestru

Mae'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol yn ei gwneud hi'n ofynnol i feddianwyr roi gwybod i ni pan fo gweithgaredd gollwng dŵr esempt neu weithgaredd dŵr daear yn dod i ben. Os nad ydych angen eich cofrestrriad mwyach (er enghraifft, os ydych yn cysylltu â'r garthffos fudr) dylech roi gwybod i Cyfoeth Naturiol Cymru (0300 065 3000 Llun-Gwe 8am i 6pm).

Bydd manylion y gollyngiad yn cael eu tynnu oddi ar y gofrestr.

4.6 Datgomisiynu

Mae datgomisiynu'n debygol o ddigwydd pan fo prif system garthffosiaeth yn cael ei darparu, neu pan fo adeiladau'n cael eu dymchwel.

Efallai y bydd angen datgomisiynu caeau draenio pan fydd eu perfformiad wedi dirywio o ganlyniad i gywasgu neu gael eu tagu neu oherwydd bod adeilad newydd yn ei gwneud yn ofynnol i symud y cyfleusterau carthion. Dŵr daear sy'n wynebu'r perygl mwyaf. Mae datgomisiynu'n debygol o godi pan na fydd yr holl gysylltiadau yn cael eu cyfeirio i'r system newydd ac yn parhau'n 'fyw', a phan na fydd tanciau'n cael eu gwacáu.

Dylai datgomisiynu sicrhau bod pob cysylltiad i'r pibellau draenio yn cael eu symud a bod pob cam angenrheidiol yn cael ei gymryd i sicrhau na ellir defnyddio'r pibellau at ddibenion eraill. Dylid cael contractwr arbenigol i wacáu pob tanc a dylid eu llenwi i'w gwneud yn ddiogel.

4.7 Deddf Diogelu Data 1998

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gorfod cadw cofrestr gyhoeddus o esemptiadau, o dan ddarpariaethau Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010. Mae'n rhaid i ni gadw cofrestr gyhoeddus o esemptiadau ac o ganlyniad nid ydym yn torri Deddf Diogelu Data 1998 wrth gadw gwybodaeth o'r fath. Gall gwneuthurwyr unedau trin carthion sy'n gallu cael gafael ar y data hwn gysylltu â deiliaid tai.

Cyfeiriadau

Cod Ymarfer Dŵr Prydain	Flows & Loads 4 - Sizing Criteria, Treatment Capacity for Small Wastewater Treatment Systems BW COP: 18.11/13
Cod Ymarfer Dŵr Prydain	A Guide for Users of Small Wastewater Treatment Systems BW COP. 3/08
Cod Ymarfer Dŵr Prydain	Guide to the Desludging of Small Wastewater Treatment Systems BW COP 9.3/09
Cod Ymarfer Dŵr Prydain	Guide to the Installation of Small Wastewater Treatment Systems BW COP: 1/08
Cod Ymarfer Dŵr Prydain	Maintenance and servicing of Small Wastewater Treatment Systems BW COP. 11/09
DETR	Planning Requirement in respect of the Use of Non-Mains Sewerage incorporating Septic Tanks in New Development. Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau (1999)
Cynghrair yr Amgylchedd	Trin ac atal carthion lle nad oes carthffos fudr ar gael: PPG4 Cynghrair yr Amgylchedd (Gorffennaf, 2006)
Safonau Prydeinig	BSEN 12566: 2000 Part I prefabricated units BSEN 12566: 2007 Part IV for septic tanks assembled in situ from prefabricated units BSEN 12566: 2005 Part III for package or site assembled domestic sewage treatment plants

Geirfa

Carthbwll	Tanc wedi'i selio a ddefnyddir i gasglu carthion heb ollwng dim i'r amgylchedd. Nid oes ganddo ollwngfa ac mae angen ei wacáu'n rheolaidd
Gwanhau a Gwasgaru	Lleihau crynodiad drwy gymysgu â dŵr
Gollwng	Rhyddhau elifion carthion wedi'u trin i ddŵr wyneb neu'r ddaear
Carthion domestig	Elifion carthion o wasanaethau a gweithgareddau domestig arferol (fel ysgolion, bwytai, siopau tecawê, cartrefi nyrsio ac ati) sy'n deillio'n bennaf o fetabolaeth ddynol a gweithgareddau yn y cartref. Gweler Atodiad A
Cae draenio	System o bibellau ymdreiddio wedi'u gosod mewn ffosydd a'u trefnu fel y gellir gollwng elifion i'r ddaear
Dŵr daear	Unrhyw ddŵr sydd islaw wyneb y ddaear yn y parth dirlawnder ac sydd mewn cysylltiad uniongyrchol â'r ddaear neu'r isbridd
System ymdreiddio	System o bibellau ymdreiddio, wedi'u gosod mewn ffosydd unigol neu un gwely mawr, a ddefnyddir i ollwng elifion mewn ffordd sy'n treiddio i'r ardal ollwng
Uned trin carthion gryno	Gwaith trin carthion bach yw unedau trin carthion cryno
Dŵr wyneb	Mewn perthynas â chofrestru: Dyfroedd croyw mewndirol (fel afon, nant, cwrs dŵr neu gamlas), dyfroedd arfordirol (fel aber) neu ddyfroedd tiriogaethol perthnasol (y môr hyd at dair milltir o'r lan).
Elifion masnach	Elifion sy'n dod o broses/safle masnachol. Gweler Atodiad A

Rhestr byrfoddau

EPR Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol Cymru a Lloegr 2010. OS Rhif. 675

MLWS Cymedr Distyll Gorllanw

PTP Uned Trin Carthion Gryno

RAMSAR Safle o bwysigrwydd cadwraeth ryngwladol a ddsbarthwyd yn y 'Confensiwn ar Wlyptiroedd o Bwys Rhyngwladol' 1971, a gadarnhawyd gan Lywodraeth y DU yn 1976

ACA Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC)

AGA Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (SPA)

SPZ Parth Gwarchod Dŵr Daear

SoDdGA Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI)

UWWTD Cyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol

DAD Deddf Adnoddau Dŵr, 1991

CFfD Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD)

Atodiad A

Dehongliadau diwygiedig o garthion domestig ac elifion masnach

Mae'r system newydd wedi'n gorfodi i edrych eto ar ein diffiniad o 'garthion domestig' a newid i'r un sy'n seiliedig ar ddiffiniad y Gyfarwydddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol, y Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991 a chyfraith achosion.

Mae carthion domestig yn cynnwys gwastraff sy'n deillio o weithgareddau domestig arferol lle bynnag y digwydd y rhain. Felly, mae carthion o ysgolion, bwytai, siopau tecawê, parciau gwyliau a chartrefi nyrsio yn ddomestig. Ni ddylai penderfynu a yw gollyngiad yn cynnwys elifion masnach olygu archwiliad manwl o'r sylweddau a defnyddiwyd gan ymgeisydd ar safle arbennig. Os yw'r elifion o natur ddomestig yn fras yna mae'n garthion domestig. Os oes cyfran sylweddol o'r gwastraff sy'n deillio o fenter fasnachol yn wahanol i'r hyn a geir mewn cartref arferol yna mae'n gymysgedd o garthion domestig ac elifion masnach.

Blwch A Dadansoddiad o weithgaredd Domestig neu Fasnach

Gweithgaredd	Masnach neu Ddomestig
Gwastraff toiled	Domestig
Gwastraff toiled cemegol (p'un ai bod y safle'n un masnachol neu breswyl)	Masnach (Nodyn 1)
Golchi personol, cawod a baddon	Domestig
Coginio domestig i deulu a ffrindiau	Domestig
Golchi dillad, dillad gwely, ayb mewn cartref gan ddefnyddio glanedyddion domestig, ayb	Domestig
Golchi llestri ac offer coginio wedi'u defnyddio ar y safle	Domestig
Coginio masnachol – i'w werthu'n uniongyrchol i ddefnyddwyr a'i fwyta ar neu oddi ar y safle (e.e. bwyty, tafarn, gwerthfan prydau parod, siop frechdanau)	Domestig (Nodyn 2)
Coginio masnachol – i'w werthu oddi ar y safle (e.e. gwneud prydau parod neu jamiau, paratoi brechdanau i'w gwerthu mewn gorsafoedd petrol, ffreuturau ayb.)	Masnach
Golchi dillad neu ddillad gwely ar safle masnachol yn deillio o weithgareddau neu breswylwyr ar y safle (e.e. golchdy ar wersyll)	Domestig
Golchi ar safle masnachol dillad neu ddillad gwely a ddaeth oddi ar y safle e.e. dillad gwely, lliainiau bwrdd, tyweli, ayb i'w defnyddio ar y safle'n unig (e.e. golchdy gwersyll ar agor i rai heb fod yn breswylwyr, golchdy stryd fawr neu olchdy canolog i gadwyn gwestai)	Masnach
Dŵr adlif ffilter pwll nofio	Domestig neu Fasnach (Nodyn 3)
Ysbytai, milfeddygfeydd, ysgolion a phrifysgolion	Domestig neu Fasnach (Nodyn 4)

Nodiadau ar Flwch A

Nodyn 1 – Argymhellir nad yw gwastraff toiled cemegol yn cael ei ollwng i PTP, gan y gall y cemegolion wenwyno'r system drin ac achosi llygredd.

Nodyn 2 – Mae diffiniad 'gweithgaredd domestig' yn mynd y tu hwnt i'r diffiniadau o weithgareddau sylfaenol, megis 'coginio'. Mae'n ystyried natur y gweithgaredd hefyd. Felly, mae coginio bwyd i'w weini fel pryd yn weithgaredd domestig arferol, hyd yn oed os yw'r pryd yn cael ei werthu i gwsmer. Nid yw coginio prydu mewn swmp i'w gwerthu'n rhywle arall, neu goginio bwyd i'w roi mewn tuniau yn weithgaredd domestig arferol. Pan fo menter fasnachol yn cynhyrchu elifion sy'n wahanol i rai cartref arferol, yna bydd yn peidio â bod yn weithgaredd domestig yn unig a bydd yn gyfuniad o garthion domestig ac elifion masnach.

Nodyn 3 - Mae'n dibynnu ar natur y pwll nofio. Mae pyllau mewn tai neu westai a ddarperir am ddim i'w defnyddio gan y preswylwyr yn ddomestig. Mae pyllau nofio trefol neu fasnachol, lle mae'r pwll yn rhan fawr o weithgaredd masnachol, yn fasnach. Sylwer nad yw unedau trin carthion cryno a thanciau septig yn addas ar gyfer trin adlif ffilter pwll, gan ei fod yn cynnwys cemegolion bacterioleiddiol a all niweidio'r broses drin. Yr unig bryd y dylid eu gollwng i waith trin yw pan maent yn cael eu gwanedu'n sylweddol gan gydrannau gwastraff eraill, sy'n annhebygol o fod yn wir am waith trin llai. Os nad oes carthffos gyhoeddus neu waith trin preifat mawr ar gael, yna dylai'r adlif gael ei ollwng i suddfan dŵr priodol.

Nodyn 4 - Mae hyn yn dibynnu ar natur y gollyngiad a sut mae gwastraff a draenio'n cael eu rheoli. Er enghraifft, mae ysbytai mwy yn debygol o ollwng elifion masnach o ganlyniad i'r math o weithgaredd sy'n digwydd ar y safle, ond mae'n bosibl mai dim ond carthion domestig y bydd ysbyty llai yn eu gollwng. Pan mae'r gollyngiad yn cynnwys gwastraff anifeiliaid neu wastraff clinigol na ddisgwylid eu gweld mewn carthion domestig, bydd y rhan honno o'r gollyngiad yn elifion masnach.